Diolchodd i'r Cynghorydd Sir Joy Jones am fynd gydag ef o gwmpas ei ward hi a dywedodd y byddai'n croesawu'r cyfle i ymweld â wardiau Aelodau eraill ac ymweld â thrigolion sy'n dathlu eu pen-blwydd yn 100 oed neu achlysuron i ddathlu 60 o flynyddoedd o briodas.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth Mr Darren Davies, Pennaeth Ysgol Uwchradd Llanidloes. Rhoddodd y Cynghorydd Sir Gareth Morgan deyrnged i Mr Davies.

| | | |
|---|---|---|
| **5.** | **CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD** | **CC5 – 2015** |

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y cyhoeddiad a wnaed yr wythnos flaenorol fod y Cynghorwyr Sir Wynne Jones ac Avril York wedi ymuno â'r Cabinet. Diolchodd i Aelodau'r Cabinet am eu gwaith caled a dywedodd eu bod wedi rhoi'r Cyngor ar sail gadarn. Diolchodd hefyd i arweinwyr y grwpiau am eu cymorth a rhoddodd sicrwydd fod ei ddrws bob amser yn agored iddynt.

| | | |
|---|---|---|
| **6.** | **ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR** | **CC6 – 2015** |

Nododd y Prif Weithredwr fod y Cyngor wedi arbed £40m yn y 3 blynedd ddiwethaf, ond roedd mwy i'w wneud. Cyfeiriodd at Rali GB Cymru a'r Ffair Aeaf - dau ddigwyddiad oedd wedi rhoi cyhoeddusrwydd da i'r sir. Nododd lwyddiant y gwobrau staff a chyfeiriodd at y digwyddiad arweinyddiaeth a oedd wedi cael derbyniad da gan y staff ac a oedd wedi cael ei we-ddarlledu am y tro cyntaf. Dywedodd wrth y Cyngor y disgwylid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Papur Gwyn ar 3 Chwefror mewn ymateb i argymhellion Comisiwn Williams. Cyn belled ag roedd Powys yn y cwestiwn, roedd gwaith yn parhau ar integreiddio gyda Bwrdd Iechyd addysgu Powys. Dywedodd fod cymeradwyaeth mewn egwyddor wedi dod i law oddi wrth Lywodraeth Cymru am adolygiad o ysgolion cynradd yn ardal dalgylch Gwernyfed a fyddai'n fuddsoddiad o £24m yn yr ardal. Roedd wedi bod yn falch o fynychu'r seremoni i dorri'r dywarchen gyntaf ar gyfer yr Ysgol Dafydd Llwyd newydd yn y Drenewydd ac fe wnaeth gydnabod gwaith ymgyrchwyr dros addysg Gymraeg yn y sir. Yn olaf, llongyfarchodd ef ac Aelodau'r Cyngor y Cynghorydd Sir John Morris a'i wraig Margaret ar ennill Gwarant Frenhinol gan Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru am eu sudd afal fferm Cymreig.

| | | |
|---|---|---|
| **7.** | **SIARTER CLLLC AR GYFER CYNORTHWYO A DATBLYGU CYNGHORWYR** | **CC7 – 2015** |

Cyflwynodd Sarah Titcombe, Ymgynghorydd Sefydliadol a Datblygu Personol ar gyfer Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Siarter CLILC ynghylch Cefnogi a Datblygu Aelodau i'r Cadeirydd. Cyfeiriodd at ansawdd uchel y gwaith a gyflwynwyd a lefel dda'r gefnogaeth sy'n cael ei rhoi i'r Aelodau. Gofynnodd Cyfreithiwr y Cyngor am gael rhoi ar gofnod ei ddiolch i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Rheolwr y Cabinet am eu gwaith.

| 8. | PENODIADAU I'R CABINET A DYRANNU PORTFFOLIOS A WNAED GAN YR ARWEINYDD | CC8 – 2015 |
|---|---|---|

Derbyniodd y Cyngor fanylion am benodiadau'r Arweinydd i'r Cabinet a'r modd y mae wedi dyrannu portffolios. Cyhoeddodd yr Arweinydd ei fod wedi penderfynu symud y cyfrifoldeb am Wasanaethau Plant i'r Cynghorydd Sir Darren Mayor. Byddai rhestr ddiwygiedig o gyfrifoldebau'r aelodau portffolio yn cael ei dosbarthu i'r Aelodau.

| 9. | CADEIRYDDION PWYLLGORAU CRAFFU | CC9 – 2015 |
|---|---|---|

Ystyriodd y Cyngor benodi Cadeiryddion y Pwyllgor Craffu Pobl a'r Amgylchedd, a'r Pwyllgor Craffu Seilwaith a Throsedd ac Anhrefn yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Sir Wynne Jones o'r Pwyllgor Craffu Pobl i ymuno â'r Cabinet. Yn unol â Mesur 2011, roedd gan y Grwpiau Gweithredol hawl i un o swyddi'r cadeiryddion craffu ac roedd gan y grŵp gwrthblaid mwyaf (Ceidwadwyr Cymreig) yr hawl i'r ail.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y penderfyniad: |
|---|---|
| **Dyrannu'r 2 swydd i Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu i'r Grwpiau Gwleidyddol fel y nodir ym mharagraff 1.8, a nodi apwyntiadau'r grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â Chadeiryddion fel a ganlyn:**<br><br>**Pwyllgor Craffu Pobl: Y Cynghorydd Sir David Jones**<br><br>**Pwyllgor Craffu Seilwaith a Throsedd ac Anhrefn Y Cynghorydd Sir Gwynfor Thomas** | **I gydymffurfio â gofynion statudol (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r angen am gydbwysedd gwleidyddol) a Chyfansoddiad y Cyngor mewn perthynas â dyrannu a phenodi seddau pwyllgor a Chadeiryddion.** |

Dywedodd Cynghrair Annibynnol Powys fod y Cynghorydd Sir Joy Shearer yn symud o'r Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Craffu Pobl a bod y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe yn ymuno â'r Pwyllgor Archwilio.

| 10. | PENODIADAU I BWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL GAN GRWPIAU GWLEIDYDDOL A GYMERADWYWYD GAN Y SWYDDOG MONITRO | CC10 – 2015 |
|---|---|---|

Nododd y Cyngor y penodiadau canlynol i bwyllgorau a wnaed gan y Swyddog Monitro o dan bŵer dirprwyo cyffredinol a roddwyd gan y Cyngor ar 16 Mai 2013:

Penodi'r Cynghorydd Sir Gary Price i'r Pwyllgor Archwilio yn lle'r Cynghorydd Sir Chris Davies.
Penodi'r Cynghorydd Sir Graham Jones i'r Pwyllgor Craffu Pobl i lenwi swydd wag.

| | | |
|---|---|---|
| **11.** | **TROSGLWYDDIADAU'R GYLLIDEB SYDD ANGEN CYMERADWYAETH Y CYNGOR** | **CC11 – 2015** |

Ystyriodd y Cyngor argymhellion cyfarfod y Cabinet ar 17 Mehefin 2014 yng nghyswllt trosglwyddiadau'r gyllideb dros £300,000.

Mewn ymateb i gwestiwn Aelod dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau fod tua 52% o'r gyllideb gyfalaf wedi cael ei gwario neu ei hymrwymo hyd yma.

Addawodd y Cyfarwyddwr Strategol Lle roi manylion i'r Cynghorydd Sir Sandra Davies am y sefyllfa o ran caniatâd cynllunio ar gyfer yr orsaf chwyddo gwastraff yng Nghwmtwrch ac i gopïo'r ateb i'r holl aelodau.

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y penderfyniad |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r trosglwyddiadau a nodwyd yn yr atodlen a fydd yn cael eu ffeilio gyda'r cofnodion a lofnodwyd.** | **I gyd-fynd â rheolau sefydlog ariannol.** |

| | | |
|---|---|---|
| **12.** | **ARGYMHELLION GAN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO, HAWLIAU TRAMWY A THRWYDDEDU TACSIS** | **CC12 – 2015** |

Datganodd y Cynghorydd Sir M.J.B. Davies fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yn eitemau 12.1 a 12.2 a gadawodd y Siambr tra oeddent yn cael eu hystyried.

Ystyriodd y Cyngor argymhellion y Pwyllgor Cynllunio, Hawliau Tramwy a Thrwyddedu Tacsis.

**12.1 Deddf Cartrefi Symudol 2013 (Cymru) - Polisi Ffioedd**

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y penderfyniad: |
|---|---|
| **Mabwysiadu'r polisi ffioedd ar gyfer Cartrefi Symudol a baratowyd ac a gymeradwywyd gan Banel Arbenigol Cymru Gyfan ar gyfer Trwyddedu.** | **I gymeradwyo Polisi Ffioedd ar gyfer Cyngor Sir Powys** |

**12.2 Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 - Prawf Person Addas a Phriodol**

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y penderfyniad: |
|---|---|
| **Mabwysiadu Deddf Cartrefi** | **I gymeradwyo 'Polisi Addas a** |

| | |
|---|---|
| **Symudol (Cymru) 2013 - Prawf Person Addas a Phriodol.** | **Phriodol i Berchnogion a Rheolwyr Safleoedd'.** |

**12.3 Cofrestru Aciwbigo, Tatŵio, Tyllu Clustiau ac Electrolysis**

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y penderfyniad: |
|---|---|
| **Bod darpariaethau adrannau 14 i 17 (yn gynhwysol) rhan VIII Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yn berthnasol i Bowys gan gynnwys pob un o'r disgrifiadau o bersonau a gynhwysir yn adran 15(1) ac y bydd y penderfyniad hwn yn dod i rym ar 31 Mawrth 2015.** | **I sicrhau bod darpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yn galluogi awdurdodau lleol i gofrestru unigolion ac adeiladau sy'n darparu aciwbigo, tatŵio, tyllu clustiau ac electrolysis.** |

| | | |
|---|---|---|
| **13.** | **ARGYMHELLION GAN Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** | **CC13 – 2015** |

Ystyriodd y Cyngor argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

**13.1 Pwyllgorau Ardal**

Argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â Phwyllgorau Ardal oedd bod pob Pwyllgor Ardal yn symud i gyfarfodydd bob deufis, gyda'r gallu i alw cyfarfodydd ychwanegol mewn achos o argyfwng.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Wynne Jones welliant, a eiliwyd yn briodol, yn ychwanegu'r geiriau "i'w adolygu ymhen 2 flynedd cyn diwedd y Cyngor hwn" ar ddiwedd yr argymhelliad. Trafododd yr Aelodau'r mater ac roedd rhai yn dadlau nad oedd y Pwyllgorau Ardal yn rhoi gwerth am arian ac eraill yn dweud eu bod yn darparu fforwm defnyddiol lle gellid trafod materion o bryder lleol. Cafodd diwygiadau pellach yn galw am adolygiad llwyr i weld a oedd Pwyllgorau Ardal yn rhoi gwerth am arian, ac am ddiwygiad cyfansawdd yn galw am gyfarfodydd Ardal bob deufis, ac yn galw am i adroddiad am eu gwerth am arian gael ei gwblhau o fewn 3 mis ac ar i bresenoldeb mewn Pwyllgorau Ardal bellach beidio â chyfrif tuag at y ffigurau sy'n cael eu monitro gan y Pwyllgor Safonau eu tynnu'n ôl.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **bod pob Pwyllgor Ardal yn symud i gyfarfodydd bob deufis, gyda'r gallu i alw cyfarfodydd ychwanegol yn achos argyfyngau i'w adolygu ymhen 2 flynedd cyn diwedd y Cyngor hwn.** | **I bennu cyfeiriad ar gyfer y Pwyllgorau Ardal yn y dyfodol.** |

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Wynne Jones welliant pellach, a eiliwyd yn briodol, na ddylai presenoldeb mewn Pwyllgorau Ardal gyfrif bellach tuag at y targed presenoldeb o 60% ar gyfer Aelodau.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **Nad yw presenoldeb mewn Pwyllgorau Ardal yn cyfrif bellach tuag at y targed presenoldeb o 60% ar gyfer Aelodau.** | **I bennu cyfeiriad ar gyfer y Pwyllgorau Ardal yn y dyfodol.** |

Cafodd gwelliant a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Tom Turner, a eiliwyd yn briodol, bod pa mor aml y mae'r Pwyllgorau Ardal yn cael eu cynnal yn cael ei gadw fel y mae yn awr, gyda disgresiwn i'r Cadeiryddion ganslo cyfarfodydd os nad oedd digon o fusnes i'w drafod ei golli wrth ei roi i bleidlais.

**Trefniadau ar gyfer gylchdroi swydd Cadeirydd y Cyngor rhwng yr Ardaloedd**

Argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd oedd bod y trefniadau ar gyfer cylchdroi swydd Cadeirydd y Cyngor rhwng yr Ardaloedd yn parhau fel ar hyn o bryd hyd nes y derbynnir eglurhad ynghylch y trefniadau ar gyfer Llywodraeth Leol yn y dyfodol yng Nghymru.

Trafododd yr aelodau welliant a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Wynne Jones, a eiliwyd yn briodol, fod swydd Cadeirydd y Cyngor yn cylchdroi ar gylchdro 2, 2, 1 i ddod i rym o fis Mai 2015 i gymryd i ystyriaeth y ffaith fod mwy o Gynghorwyr yn Sir Drefaldwyn a Sir Frycheiniog. Teimlai un aelod y byddai'n sarhaus i bobl Sir Faesyfed gael eu trin yn wahanol i'r Ardaloedd eraill; teimlai aelodau eraill y dylai Cadeirydd y Cyngor gael ei ethol gan y Cyngor cyfan ni waeth pa Ardal y deuai ohoni. Collwyd y gwelliant hwn wedi ei roi i bleidlais.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y Penderfyniad |
|---|---|
| **Bod y trefniadau ar gyfer cylchdroi swydd Cadeirydd y Cyngor rhwng yr Ardaloedd yn parhau fel ar hyn o bryd hyd nes y derbynnir eglurhad ynghylch y trefniadau ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru yn y dyfodol .** | **I benderfynu ar y trefniadau ar gyfer cylchdroi swydd Cadeirydd y Cyngor.** |

Cytunodd y Cadeirydd y gallai trefn yr agenda gael ei hamrywio i gymryd yr eitem ganlynol nesaf.

| 14. | CREU BWRDD PENSIYNAU LLEOL POWYS | CC14 – 2015 |
|---|---|---|

Dywedwyd wrth yr Aelodau ei bod yn ofynnol i'r Cyngor yn ôl Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 greu Bwrdd Pensiynau lleol ar gyfer Cronfa Bensiwn Powys erbyn 1 Ebrill 2015. Cafodd gwelliant a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Gary Price ac a eiliwyd yn briodol i ohirio ystyried yr adroddiad gan nad oedd rheoliadau terfynol wedi eu cyhoeddi eto gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ei golli ar ôl ei roi i bleidlais.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y penderfyniad: |
|---|---|
| **Bod y Cyngor yn cymeradwyo ychwanegiad at ei Gyfansoddiad fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ffeilir gyda'r cofnodion wedi'u llofnodi, hy creu Bwrdd Pensiynau lleol i Gronfa Bensiwn Powys.** | **Bod y Cyngor, fel Awdurdod Gweinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Powys, yn gallu cyflwyno Bwrdd Pensiynau lleol fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gynorthwyo gyda sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau ac i sicrhau bod pensiynau yn cael eu llywodraethu yn effeithlon ac effeithiol.** |

Gadawodd y Cynghorydd Sir Dai Davies y cyfarfod.

| 13. | ARGYMHELLION GAN Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD | CC13 – 2015 |
|---|---|---|

**13.2 Gwe-ddarlledu**

Ystyriodd y Cyngor argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y penderfyniad: |
|---|---|
| **Bod y Cyngor yn gwe-ddarlledu cymaint o gyfarfodydd â phosibl.** | **I alluogi'r Cyngor i gynnal busnes yn effeithlon a chyfathrebu â'i drigolion.** |

**13.3 Taliadau i Aelodau Cyfetholedig**

Ystyriodd y Cyngor argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

| PENDERFYNWYD | Rheswm am y penderfyniad: |
|---|---|
| **1. Bod uchafswm nifer y dyddiau y gall Aelodau Lleyg y Pwyllgor Archwilio gael eu talu o’r Cyfarfod Blynyddol yn 2014 gael ei gynyddu i 25 diwrnod fel mesur dros dro** | **I osod uchafswm nifer y dyddiau y gall aelodau cyfetholedig gael eu talu mewn unrhyw un flwyddyn fel sy'n ofynnol gan Adroddiad Panel Taliadau Annibynnol Cymru - Rhagfyr 2012.** |

| | |
|---|---|
| **2. Bod adolygiad o’r terfynau a osodwyd ar gyfer ar gyfer Aelodau Lleyg y Pwyllgor Archwilio a Chynrychiolwyr Rhieni Llywodraethwyr yn cael eu cynnal ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.** | |

| **15.** | **NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD CYFREDOL** | **CC15 – 2015** |
|---|---|---|

**Ystyriodd y Cyngor newidiadau i'r Protocol Cynllunio yn y Cyfansoddiad cyfredol fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Cynllunio, Hawliau Tramwy a Thrwyddedu Tacsis a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Nododd y Cyngor fod yna rai gwallau teipio yn y ddogfen ac y byddai yn cael ei diwygio ar gyfer y fersiwn terfynol.**

| **PENDERFYNWYD** | **Rheswm am y Penderfyniad** |
|---|---|
| **Bod y Protocol Cynllunio diwygiedig yn cael ei gymeradwyo (gyda chopi yn cael ei ffeilio gyda'r cofnodion a lofnodwyd).** | **I roi ystyriaeth i argymhellion y Pwyllgor Cynllunio, Hawliau Tramwy a Thrwyddedu Tacsis a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |

| **16.** | **CYFANSODDIAD NEWYDD** | **CC16 – 2015** |
|---|---|---|

Ystyriodd y Cyngor rhannau o'r Cyfansoddiad newydd.

Nodwyd y byddai Adran 4 yn cael ei diwygio i gynnwys paragraff newydd 4.16.14 yn ymdrin â Thâl y Prif Swyddogion.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir John Brunt welliant, a eiliwyd yn briodol, i ddileu Rheol 4.22 Hyd Cyfarfodydd o Adran 4, a gollwyd ar ôl ei roi i bleidlais.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Stephen Hayes welliant, a eiliwyd yn briodol, i ddileu Rheol 4.40.2, sy'n datgan na ellir gwneud cynnig i gael gwared ar yr Arweinydd fwy nag unwaith mewn unrhyw gyfnod treigl o 6 mis, a gollwyd ar ôl ei roi i bleidlais.

| **PENDERFYNWYD** | **Rheswm am y penderfyniad:** |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r Adrannau canlynol o'r Cyfansoddiad newydd, ar yr amod na fydd yr adrannau hynny yn dod i rym nes bod y Cyfansoddiad newydd i gyd wedi cael ei gytuno gan y Cyngor:**<br><br>**Adran 1 - Cyflwyniad**<br>**Adran 2 - Pwrpas, Diffiniad, Dehongli a Diwygio'r Cyfansoddiad** | **I gytuno rhannau o'r Cyfansoddiad newydd.** |

| | |
|---|---|
| **Adran 3 - Cael gwybodaeth a Chymryd Rhan**<br>**Adran 4 - Y Cyngor Llawn (fel y'i diwygiwyd)**<br>**Adran 5 - Y Cabinet**<br>**Adran 6 - Yr Arweinydd**<br>**Adran 8 - Y Pwyllgor Safonau**<br>**Adran 9 - Pwyllgorau Rheoleiddio**<br>**Adran 10 - Pwyllgorau ar y Cyd**<br>**Adran 18 - Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau**<br>**Adran 19 - Protocol Cynllunio**<br>**Adran 23 - Disgrifiad o Swyddogaeth yr Aelodau**<br>**Adran 24 - Materion Hawliau Tramwy - Darpariaethau Siarad Cyhoeddus**<br>**Adran 26 - Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion**<br>**Adran 28 - Protocol ar gyfer Datrysiadau Lleol**<br>**Adran 29 - Protocol ar Faterion Dinesig a Gweithredol** | |

| | | |
|---|---|---|
| **17.** | **BLAENRAGLEN WAITH Y CYNGOR** | **CC17 – 2015** |

Derbyniodd y Cyngor y flaen raglen waith ar gyfer 2015.

| | | |
|---|---|---|
| **18.** | **CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD** | **CC18 – 201** |

**18.1 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio dros Ofal Cymdeithasol i Oedolion gan y Cynghorydd Sir Gwilym Williams**

**Mae'r cefndir i'm cwestiwn yn ymwneud â gofal i oedolion a gofal cymdeithasol, pan luniodd ymgynghorydd gontractau a'u dyfarnu i bedwar darparwr mawr cenedlaethol ar gyfer gofal i bobl yn eu cartrefi.**

**Pan oedd y contractau hyn yn cael eu dyfarnu dywedwyd wrthyf fod yr ymgynghorydd wedi iddo orffen ei gontractau a gadael Powys, yn mynd i weithio i un o'r darparwyr hyn.**

**Ar ddechrau 2014 pan oeddwn yn Gadeirydd Pwyllgor Sir Faesyfed pan oedd yr aelod portffolio Darren Mayor yn bresennol, gofynnais y cwestiwn a oedd yr ymgynghorydd yn mynd i weithio i un o'r darparwyr hyn. Fe wnaethant fy sicrhau ac addo i mi nad oedd hyn yn mynd i ddigwydd. Yna daeth i'r amlwg, a chadarnhawyd hynny gan Darren Mayor, fod yr ymgynghorydd bellach yn gweithio i un o'r cwmnïau hyn, felly, a yw'n foesegol i hyn ddigwydd?**

**Rwyf bellach yn deall bod ymchwiliad annibynnol yn mynd i gael ei gynnal i sut y cafodd y contractau hyn eu dyfarnu, ac yn amlwg mae'n rhaid i ni aros am y penderfyniad, ond bydd unrhyw ymchwiliad yn edrych ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol, a hoffwn i edrych i'r dyfodol.**

**Hoffwn ofyn i'r aelod portffolio yng ngoleuni'r uchod a ellid sicrhau na fydd ymgynghorwyr sy'n dyfarnu contractau ar gyfer Cyngor Sir Powys, ac yna yn gadael yr awdurdod, yn cael hawl i weithio i'r cwmnïau hyn am o leiaf flwyddyn ar ôl i'r contract gael ei ddyfarnu?**

*Gofynnwyd i gyfreithiwr y Cyngor edrych i mewn i'r materion cyfreithiol sy'n ymwneud â cheisio gosod cymal "cyfyngu ar fasnach" o'r fath o fewn ein contractau ymgynghoriaeth. Dywedir wrthyf fod ei ymholiadau yn parhau ond mae'n eglur ei bod yn anghyffredin i gymalau o'r fath gael eu gosod, efallai oherwydd y gellid defnyddio cymal o'r fath gan yr ymgynghorydd i awgrymu eu bod yn weithwyr yn hytrach nag yn ymgynghorwyr. Bydd angen rhoi ystyriaeth hefyd i sut y gellir gorfodi hyn yn erbyn yr ymgynghorydd unigol, yn hytrach nag yn erbyn y cwmni y mae'r Cyngor yn contractio ag ef. I ddibenion treth, mae'r rhan fwyaf o'r ymgynghorwyr yr ydym ni yn eu defnyddio (os nad pob un ohonynt) yn sefydlu eu hunain fel Cwmnïau Cyfyngedig i ddibenion masnachu ac mae'r contract ymgynghoriaeth gyda'r cwmni, yn hytrach na gydag unigolyn. Mewn trefniant o'r fath, byddai'r cymal cyfyngu ar fasnach (os gellid ei orfodi o gwbl) yn un y gellid ei orfodi yn erbyn y cwmni yn unig ac nid yn erbyn yr unigolyn. Mae yna berygl y gallai'r ymgynghorydd unigol geisio trechu effaith cymal o'r fath drwy sefydlu ail gwmni mewn enw gwahanol a defnyddio'r ail gwmni hwnnw i wneud gwaith ar gyfer y Contractwyr y byddem wedi eu penodi.*

Mewn ateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Williams, cadarnhaodd yr Aelod Portffolio fod y contractwr wedi rhoi sicrwydd ar lafar fel yr adroddodd i bwyllgor Sir Faesyfed. Cynghorodd Cyfreithiwr y Cyngor fod y materion cyfreithiol a godwyd yn cael eu hystyried, ond fel y nodwyd yn yr ymateb roedd anfanteision mewn rhoi cymalau "cyfyngu masnach" mewn contractau ymgynghoriaeth.

**18.2 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio dros Briffyrdd gan y Cynghorydd Sir David Jones**

**Yn dilyn cwynion i Gyfoeth Naturiol Cymru am dipio gwastraff wedi'i lygru'n anghyfreithlon gan yr adran Priffyrdd mewn tri safle yng Nghegidfa fe wnaethant glirio'r deunydd yn rhannol cyn ailddechrau gollwng y gwastraff. Pam y gwnaeth yr adran Priffyrdd ailddechrau tipio anghyfreithlon ac a yw hyn wedi digwydd mewn rhannau eraill o Bowys?**

*Cafodd y sbwriel dail a ollyngwyd ym mhen draw'r briffordd a elwir yn Laundry Lane, Cegidfa; sef testun y cwynion i ddechrau, ei glirio yn ystod yr wythnos yn diweddu 14 Rhagfyr, 2014. Ni chafodd ddeunydd arall ei ollwng yn y lleoliad hwn hyd yma.*

*Mae nifer o leoliadau eraill lle mae ein priffyrdd gwledig yn mynd drwy goetiroedd Cyfoeth Naturiol Cymru, ac yn yr un modd â Laundry Lane mae Cyfoeth Naturiol Cymru (yr Adran Rheoli Coedwigaeth) wedi gofyn am i'r sbwriel dail o'r priffyrdd hyn o fewn eu coetiroedd gael ei ollwng mewn lleoliadau yn y safleoedd ar gyfer eu casglu a'u hail-ddefnyddio wrth adfywio'r pridd o fewn ardaloedd o'u coetir.*

*Roedd y deunydd a gafodd ei symud yn flaenorol yn amlwg yn anaddas; oherwydd ei fod mewn cyflwr mor wlyb, ac mae gweithredwyr yn ymwybodol nad yw hyn yn dderbyniol.*

*Yn wyneb y cwynion a dderbyniwyd yn awr, a'r ffaith ein bod unwaith eto wedi derbyn ceisiadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y sbwriel dail, rydym wedi gofyn am gadarnhad ysgrifenedig pellach ac am esboniad am eu sefyllfa.*

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Jones ynghylch sut y byddai gwastraff a oedd wedi rhedeg ar dir cyfagos yn cael ei adennill, dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod wedi deall bod yr holl wastraff wedi cael ei symud, ond y byddai'n gwirio hyn eto. Addawodd hefyd anfon ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru at yr holl Aelodau ar ôl iddo ei dderbyn.

**Cwestiwn i'r Aelod Portffolio dros Reoli Gwastraff gan y Cynghorydd Sir David Jones**

**A yw'r cyngor wedi adrodd wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru eu bod wedi bod yn dargyfeirio deunydd halogedig allan o'r ffrwd gwastraff drwy dipio anghyfreithlon, a thrwy hynny "wella" canran y gwastraff sy'n cael ei ail-gylchu?**

*Ar ôl cwblhau'r treial y bu Cyngor Sir Powys yn cymryd rhan ynddo ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru / LlC, fe wnaethom hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru am ein bwriad i 'ddychwelyd yr holl sbwriel dail sy'n ymddangos i ymyl y briffordd ar y safle'.*

*Cafodd y deunydd a gymerwyd o'r blaen i'r safleoedd treialu ar ffermydd ei gynnwys yn y data a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ac oherwydd ei fod yn cael ei ailgylchu ar y pryd fe wnaeth y deunydd gyfrannu at ein ffigyrau ailgylchu.*

*Roedd diwedd y treial yn golygu gostyngiad yn ein cyfanswm ailgylchu o oddeutu 5.5%.*

Mewn ateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Jones am gyfraddau ailgylchu ar hyn o bryd, dywedodd yr Aelod Portffolio mai'r gyfradd oedd 53.4%.

**18.4 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio dros Addysg gan y Cynghorydd Sir Paul Ashton**

**O ystyried cyflwyno'r Grant Gwella Addysg sut y bydd yr aelod portffolio yn sicrhau y bydd disgyblion dros dro'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ysgolion Powys sydd angen SIY (EAL) yn parhau i dderbyn y gefnogaeth angenrheidiol er mwyn cynnal safonau?**

*Mae'n bryder bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig sydd wedi cael ei ddefnyddio am flynyddoedd lawer i gefnogi dysgwyr ar draws Powys a Chymru sydd angen cymorth i ddatblygu eu cymhwysedd yn y Saesneg /y Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru yn dirwyn pedwar ar ddeg o grantiau i ben i greu grant newydd, sef y Grant Gwella Addysg. Mae'r grant newydd yn grant rhanbarthol, ac nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi manylion amdano eto. Cyn gynted ag y bydd manylion ar gael byddaf mewn sefyllfa i roi gwybodaeth bellach.*

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol, ond gofynnodd y Cynghorydd Ashton am gael ei hysbysu am unrhyw ddatblygiadau.

**L.R.E. DAVIES**
**CADEIRYDD**

Y Cyngor Sir 21 Ionawr 2015
10.30 – 13.10